POLISI GOSOD YSGOLION

1) CYFLWYNIAD

   a) Mae Cyngor Sir Ynys Môn ("y Cyngor") yn awyddus i alluogi a hyrwyddo defnydd o gyfleusterau ysgol gan y gymuned er budd y gymuned. Pwrpas y polisi yw:

      a. darparu arweiniad clir ar osod a llogi mangreoedd ysgol;

      b. galluogi mynediad diogel at safle a mangre ysgol;

      c. hyrwyddo defnydd o gyfleusterau ysgol gan y gymuned ehangach; a

      d. diogelu buddion y Cyngor a'r ysgolion. Dylid darllen y Polisi hwn ochr yn ochr â 'Pholisi Dim Llwyfan' y Cyngor.

   b) Cyfarwyddyd yw telerau'r polisi hwn dan y diffiniad a roddir yn rheoliadau 3(2) a 7(2) o Reoliadau Rheoli Mangreoedd Ysgol (Cymru) 2008.

2) DIFFINIAD O OSOD

   a) Gellir diffinio gosod fel "unrhyw ddefnydd o adeiladau a thir ysgol gan unrhyw rai oni bai am yr ysgol". Mae'n hanfodol nad yw gosod yn ymyrryd â gweithgareddau'r ysgol.

   b) Mae defnydd o fangreoedd ar gyfer gweithgareddau megis cyfarfodydd staff, cyfarfodydd rhieni, cyfarfodydd Corff Llywodraethu a gweithgareddau allgyrsiol i ddisgyblion dan oruchwyliaeth staff ysgol yn disgyn o fewn bywyd corfforaethol yr ysgol. Mae'r costau sy'n codi o'r defnydd hwn felly yn gost wirioneddol yn erbyn cyllideb ddirprwyedig yr ysgol ac nid oes angen cytundeb gosod ar ei gyfer.

   c) Mae tri math o gytundeb gosod:

      i) **Cytundeb Trwydded** – defnyddir y cytundeb hwn pan fydd aelodau o'r cyhoedd, grwpiau, sefydliadau neu drydydd parti arall (er enghraifft dosbarth dawns lleol neu glwb pêl-droed lleol eisiau defnyddio tir yr ysgol bob nos Fawrth a bob bore dydd Sul) yn dymuno defnyddio darn o fangre'r ysgol ar gyfer gweithgaredd neu ddigwyddiad. Gall y Corff Llywodraethu benderfynu ar delerau'r drwydded sy'n amodol ar y telerau hynny mewn cydymffurfiad â'r polisi hwn a gyda'r telerau lleiaf sydd yn y Cytundeb Trwydded a amlinellir yn Atodiad A.

      ii) **Cytundeb i Drosglwyddo Rheolaeth (TOCA)** – defnyddir y cytundeb hwn pan ddaw trydydd parti ("y Corff Rheoli") at Gorff Llywodraethu i ymofyn am reoli a gweinyddu defnydd o'r ysgol neu rannau o'r ysgol yn ystod amseroedd penodol, gan amlaf tu allan i oriau ysgol. Mae'n rhaid i

hyn fod er pwrpas hybu defnydd cymunedol o gyfleusterau'r ysgol. Gellir defnyddio'r Cytundeb hwn er enghraifft i Bwyllgor Canolfan Cymunedol ddefnyddio'r fangre ysgol tu allan i oriau ysgol ac er mwyn gallu cynnig trwydded i Bartïon eraill. Mae'r math hwn o gytundeb yn galluogi trydydd partïon i ddefnyddio cyfleusterau ysgol heb ddefnyddio rheolaeth ac amser gweinyddol staff ysgol, ac mae'n caniatáu i'r Corff Rheoli wobrwyo Cytundebau Trwydded yn unol â thelerau'r polisi hwn. Mae'n rhaid i'r corff llywodraethol feddiannu caniatâd y Cyngor cyn mynd i Gytundeb i Drosglwyddo Rheolaeth er mwyn sicrhau y ceir y cytundeb a'r hawliau cywir. Nid yw'r cytundeb hwn yn creu tenantiaeth busnes.

iii) **Prydles** – defnyddir y cytundeb hwn pan fydd y Corff Llywodraethu'n dymuno cael grwpiau parhaol ar y safle sy'n trigo mewn rhannau o'r fangre ar sail neilltuedig. Ni fydd gan yr ysgol unrhyw fynediad neu ddefnydd o ystafell, a'r deiliad fydd yn rheoli'r gofod. Enghraifft o hyn yw meithrinfa annibynnol yn trigo mewn rhan o fangre'r ysgol. Bydd angen cytundeb prydles ar gyfer y trefniant hwn. Bydd y brydles yn creu tenantiaeth fusnes a bydd deddfwriaeth Landlord a Thenantiaid yn ymdrin â hon felly mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu gysylltu â Gwasanaethau Eiddo'r Cyngor a fydd yn drafftio'r cytundeb prydles angenrheidiol yn seiliedig ar anghenion unigol yr ysgol. Bydd y Gwasanaeth Eiddo neu'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn cynhyrchu'r cytundeb hwn.

3) FFIOEDD AM OSOD

a) Mae'n rhaid i bob ysgol ddarparu manylion i'r Cyngor ynglŷn â'r ardaloedd yn yr ysgol y byddai'n ystyried eu gosod ac unrhyw wybodaeth arall a ofynnir amdano gan y Cyngor i gyfrifo lleiafswm y gost. Bydd lleiafswm y gost yn cael ei gyfrifo gan y Cyngor i gyfrif am y gost i'r ysgol gynnal y gweithgaredd ("Lleiafswm y Gost").

b) **Cytundeb Trwydded**

i) Y Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol am osod costau am drwydded yn amodol ar Leiafswm y Gost, a fydd yn cael ei gyfathrebu'n ysgrifenedig i'r ysgolion o dro i dro.

ii) Gall y Corff Llywodraethol godi unrhyw ffi sy'n uwch na Lleiafswm y Gost.

iii) Mae'n rhaid i'r ysgol gymhwyso treth ar werth i'r holl drafodion lle bo'n briodol yn unol â'r gyfraith.

iv) Mae gan yr ysgol yr hawl i ofyn am flaendal sydd dros ac yn uwch na'r gost logi fel sicrwydd yn erbyn difrod i'r fangre (gan gynnwys unrhyw offer) neu'r fangre'n cael ei gadael mewn cyflwr annerbyniol sy'n achosi cost ychwanegol am lanhau, gofalu neu gostau eraill.

v) Bydd yr ysgol yn ymofyn am adennill unrhyw gostau yr ânt iddynt na ellir eu hosgoi ac sy'n deillio'n uniongyrchol o ganslo gosodiad.

vi) Bydd yr ysgol yn cwblhau'r ffurflen Gosod Mangreoedd.

c) **Cytundeb i Drosglwyddo Rheolaeth**

i) Y Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol am osod costau am TOCA yn amodol ar Leiafswm y Gost, a fydd yn cael ei gyfathrebu'n ysgrifenedig i'r ysgol yn dilyn cais am TOCA yn seiliedig ar delerau'r TOCA.

ii) Gall y Corff Llywodraethu godi unrhyw ffi uwchben Lleiafswm y Gost.

iii) Y Corff Rheoli sy'n gyfrifol am dalu Lleiafswm y Gost, a bydd yn ei dalu'n llawn. Fodd bynnag, gall godi ffi ar y Corff Rheoli fel y creda sy'n rhesymol, ond gydag ystyriaeth i bwrpas y TOCA i hyrwyddo defnydd cymunedol.

iv) Mae'n rhaid i'r ysgol gymhwyso treth ar werth i'r holl drafodion lle bo'n briodol yn unol â'r gyfraith.

v) Mae gan yr ysgol yr hawl i ofyn am flaendal sydd dros ac uwchben y gost logi fel sicrwydd yn erbyn difrod i'r fangre (gan gynnwys unrhyw offer) neu'r fangre'n cael ei gadael mewn cyflwr annerbyniol sy'n achosi cost ychwanegol am lanhau, gofalu neu gostau eraill.

d) **Prydles**

i) Bydd y Cyngor yn gosod ffigwr y rhent dan delerau'r brydles.

4) GWEITHGAREDDAU A GANIATEIR

i) Bydd y Cyngor o bryd i bryd yn mynegi rhestr ysgrifenedig i ysgolion o weithgareddau a digwyddiadau neu fathau o weithgareddau neu ddigwyddiadau a ganiateir; na chaniateir; neu sy'n gofyn am ganiatâd y Cyngor.

ii) Ni ellir cymeradwyo gweithgareddau a fwriedir eu cynnal yn ystod diwrnod ysgol heb ganiatâd y Cyngor.

5) DIOGELWCH A DIOGELU

Bydd y Corff Llywodraethu'n pennu'r risg diogelwch ar gyfer pob gosodiad a bydd yn gyfrifol am ddyrannu presenoldeb diogelwch parhaus neu fesurau rheoli eraill. Cyhoeddwyd y Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 ar y 12fed o Fawrth 2015. Mae Adran 26 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar ysgolion yng Nghymru a Lloegr i rwystro pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth. Mae'r ddyletswydd hon yn cymhwyso at bob ysgol, p'run ai wedi ei hariannu'n gyhoeddus neu'n annibynnol,

a sefydliadau a ymdrinnir â nhw gan fframwaith Cyfnod Sylfaen Blynyddoedd Cynnar.

Mae'n rhaid i arweinwyr ysgol (gan gynnwys llywodraethwyr):

- sefydlu neu ddefnyddio mecanweithiau sy'n bodoli eisoes i ddeall y perygl o eithafiaeth
- sicrhau bod staff yn deall y risg ac yn adeiladu medrusrwydd i ymdrin â hyn
- cyfathrebu a hyrwyddo pwysigrwydd y ddyletswydd
- sicrhau bod staff yn gweithredu'r ddyletswydd yn effeithiol

Mae'n rhaid i'r Pennaeth ystyried:

Y canlyniad y gall y gosodiad gael ar ddiogelwch plant a sicrhau y cwblheir asesiad risg a bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i liniaru'r risgiau.

Lefel y gefnogaeth gydag unigolion y gall fod yn fregus oherwydd oedran/anabledd/ salwch ac ati, a chynghori y bydd cyswllt â'r unigolion bregus hyn yn gofyn am ymrwymiad i ddiogelu/tystiolaeth o fesurau diogelu.

Gweithgarwch a reoleiddir

Mae'n rhaid i'r llogwr gydnabod ei fod/ei bod yn Ddarparwr Gweithgarwch a Reoleiddir sydd â chyfrifoldeb dros reoli'r Gweithgarwch a Reoleiddir ac er pwrpas Deddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006.

Bydd y llogwr yn:

1. Sicrhau bod pob unigolyn sy'n ymgysylltu â Gweithgarwch a Reoleiddir yn amodol ar wiriad datgelu manwl dilys am weithgarwch a reoleiddir a ymgymerir ag ef drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; a

2. Monitro lefel a dilysrwydd y gwiriadau i bob aelod o staff.

3. Peidio â chyflogi na defnyddio gwasanaethau unrhyw berson sydd wedi ei wahardd, neu unrhyw berson sydd ag ymddygiad neu gofnod blaenorol sy'n awgrymu na fyddent yn addas i gynnal Gweithgarwch a Reoleiddir neu gall fel arall achosi risg i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Mae'r Llogwr yn gwarantu bob amser nad oes ganddo reswm i gredu bod unrhyw berson sydd wedi ei gyflogi neu y gellir ei gyflogi neu sydd wedi ymgysylltu â'r

Llogwr yn narpariaeth y Gwasanaethau wedi ei wahardd rhag y gweithgarwch yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006 ac unrhyw reoliadau cysylltiedig, fel y'u diwygir o bryd i bryd.

Bydd y Llogwr yn hysbysu'r Awdurdod yn syth o unrhyw wybodaeth y mae'n gofyn amdani i'w alluogi i fod yn fodlon bod goblygiadau'r uchod wedi eu cyflawni.

Bydd y Llogwr yn cyfeirio gwybodaeth am unrhyw unigolyn sy'n cynnal y Gwasanaethau i'r DBS lle mae'n tynnu caniatâd yn ôl i'r fath person gynnal y Gwasanaethau (neu wedi os na fyddai'r fath unigolyn wedi'i wahardd rhag cynnal y Gwasanaethau) oherwydd bod y fath berson wedi niweidio neu'n achosi risg o niwed i Ddefnyddwyr y Gwasanaeth **NEU** blant **NEU** oedolion bregus.

6) RHEOLI A GWEINYDDU GOSOD

a) Corff Llywodraethu llawn yr ysgol sy'n gyfrifol am reoli gosod. Gwneir penderfyniadau rheoli dydd i ddydd gan y Corff Llywodraethu (neu un o'i bwyllgorau lle mae pwerau wedi eu dirprwyo). Y Pennaeth sydd â chyfrifoldebau uniongyrchol ar y safle.

b) Bydd angen i'r Pennaeth fod yn fodlon bod y Corff Rheoli'n gallu rheoli'r gosodiad yn unol â'r polisi, 'Polisi Dim Llwyfan' y Cyngor, egwyddorion ysgol a pholisïau ysgol cyn cytuno i dderbyn y llogiad. Os nad yw'r Pennaeth yn teimlo y bydd gweithdrefnau rheoli boddhaol yn eu lle yn ystod y gosodiad neu os yw'n teimlo y byddai defnydd bwriadus o'r cyfleusterau yn torri unrhyw bolisïau neu egwyddorion perthnasol, ni ddylent dderbyn y cais llogi.

Mae'n rhaid cydymffurfio â'r canlynol:

- Gofyn beth sy'n cael ei gynllunio a phwy sy'n ei gynllunio.
- Gwirio - Defnyddio diwydrwydd i wirio'r hyn a ddwedwyd wrthych a chanfod mwy.
- Penderfynu (gweler Atodiad D am gwestiynau i ofyn)

Os oes gan y Pennaeth unrhyw bryderon ynglŷn ag addasrwydd cais am osod, bydd yn ymgynghori â Chadeirydd y Llywodraethwyr a fydd yn gallu ymofyn am gyngor gan y Cyngor. Dylid adrodd ar unrhyw bryderon diogelu yn unol â Pholisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor. Dylid adrodd ar unrhyw bryderon diogelu yn unol â Pholisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor. Dylid adrodd ar unrhyw amheuaeth o droseddolrwydd i'r Heddlu. Bydd Penaethiaid neu'r Cyngor yn sicrhau bod trefniadau i fonitro cydymffurfiad â'r Polisi hwn a

sicrhau bod unrhyw risgiau yn hysbysu Cofrestr Risgiau'r Ysgol a'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol.

c) Gwneir adroddiad blynyddol ar osod i'r Corff Llywodraethu a fydd yn cynnwys gwybodaeth am ddefnyddwyr, deilliannau, cyllid, digwyddiadau a damweiniau, ymholiadau ac unrhyw osodiadau a wrthodir.

7) Y BROSES WEINYDDOL

a) Cytundeb Trwydded

i. Dylai unigolyn neu sefydliad fynd at y Pennaeth.

ii. Mae'n rhaid i Bennaeth wirio'r rhestr o weithgareddau a ganiateir. Os caniateir y gweithgaredd, gall y Pennaeth gymeradwyo'r drwydded. Os na chaniateir y gweithgaredd, mae'n rhaid i'r Pennaeth wrthod y cais. Dan unrhyw amgylchiadau eraill, mae'n rhaid i'r Pennaeth dderbyn caniatâd y Cyngor.

iii. Bydd y Pennaeth yn ymgynghori â'r Corff Llywodraethu (neu bwyllgor dirprwyedig) i asesu'r risgiau a'r datrysiadau posib a gysylltir â'r cynnig a phenderfynu a yw'r cynnig yn ddigonol ar gyfer yr ysgol.

iv. Dylai'r ymgeisydd arwyddo'r Cytundeb Trwydded, gan gydnabod a chytuno i lynu at y telerau a'r amodau a nodir (gweler Atodiad A).

v. Dylai'r ymgeisydd dalu'r ffi cyn dyddiad y llogiad.

vi. Mae'n rhaid i'r Pennaeth wirio a dilysu'r holl ddogfennaeth sydd ei hangen gan yr ymgeisydd am y Cytundeb Trwydded cyn dechrau'r trwydded.

b) Trosglwyddo Cytundeb Rheoli

i) Dylai unigolyn neu sefydliad ddod at y Pennaeth.

ii) Bydd gofyn i'r ymgeisydd ddarparu'r holl ddogfennaeth a gwybodaeth yr amlinellir yn y rhestr wirio (gweler Atodiad B) a fydd yn cael ei wirio gan y Pennaeth.

iii) Bydd y Pennaeth yn ymgynghori â'r Corff Llywodraethu (neu bwyllgor dirprwyedig) i asesu'r risgiau a'r datrysiadau posib a gysylltir â'r cynnig a phenderfynu a yw'r cynnig yn ddigonol ar gyfer yr ysgol.

iv) Lle nad yw ymgeiswyr yn llwyddiannus, dylid nodi'r rheswm am hynny ar y ffurflen gais a'i dychwelyd i'r ymgeisydd. Efallai y bydd yr ymgeisydd yn

dymuno apelio'r penderfyniad gan ddefnyddio gweithdrefn apeliadau'r ysgol.

v) Lle cymeradwyir y cais, bydd y Corff Llywodraethu (neu bwyllgor dirprwyedig) yn ymofyn am ganiatâd y Cyngor a bydd y TOCA mewn ffurf debyg ond ni fydd yn llai beichus na'r drafft ynghlwm (Gweler Atodiad C).

c) Prydlesi

i) Dylai unigolyn neu sefydliad fynd at y Pennaeth.

ii) Bydd y Pennaeth yn ymgynghori â'r Corff Llywodraethu i asesu'r risgiau a'r datrysiadau posib a gysylltir â'r cynnig a phenderfynu a yw'r cynnig yn ddigonol ar gyfer yr ysgol.

iii) Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu gysylltu â'r Awdurdod Lleol (Gwasanaethau Eiddo) gyda datganiad (Atodiad C) ynglŷn ag a ydyw'n cefnogi ynteu'n gwrthwynebu'r brydles a gynhigir.

iv) Bydd y Cyngor yn drafftio'r brydles briodol gan ystyried argymhellion y Corff Llywodraethu.

d) Mae'n rhaid i'r ysgol gynnal cofnod addas o osodiadau a symiau sy'n ddyledus ar gyfer pob cytundeb. Ar gyfer defnyddwyr rheolaidd neu logi mewn bloc, dylid cofnodi'r incwm sy'n ddyledus a'r incwm a dderbyniwyd e.e. ar daflenni rheoli, gan ganiatáu i falansau sydd dros ben gael eu hadnabod yn glir. Lle bo incwm gosod dyledus yn parhau i fod yn ddyledus, dylid gweithredu'n syth ac yn addas i'w adennill.

ATODIAD A CYTUNDEB TRWYDDED

(Gan Gynnwys Telerau ac Amodau)

CYTUNDEB TRWYDDED

Mae [Enw'r Corff Llywodraethu a chyfeiriad yr ysgol] (y Trwyddedwr) yn caniatáu defnydd o ofod a elwir yn [Ardal o'r ysgol] (y Fangre) yn [Enw'r ysgol] ("yr adeilad")

I: [Enw'r Llogwr] (y Trwyddedai) O: [Cyfeiriad y Llogwr]

Yn y telerau a'r amodau a argraffir yma.

Cyfnod y Drwydded

Cyfnod o'r: [Dyddiad] i'r [Dyddiad] yn amodol ar yr amodau sydd yma.

Amseroedd y Drwydded

Yn ystod yr oriau o bob
Dydd Llun/Mawrth/Mercher/Iau/Gwener/Sadwrn/Sul yn ystod Cyfnod y Drwydded

Ffi am y Drwydded

Ffi am y Drwydded £ _____ (I'w dalu cyn llogi)

Defnydd a Ganiateir

Golyga Defnydd a Ganiateir_____

Llofnodwyd ar ran y Trwyddedwr: _____

Mae'r Trwyddedai felly'n cadarnhau ei fod/ei bod wedi darllen a deall y telerau a'r amodau hyn ac yn cytuno i fod yn gaeth i'r amodau a'r telerau hyn o ddechreuad y Cytundeb Trwydded hwn.

Enw Mewn Print: _____

Llofnodwyd (Trwyddedai): _____ Dyddiad: _____

TELERAU AC AMODAU'R CYTUNDEB TRWYDDED

1) FFI AM Y DRWYDDED

   a) Mae'r Ffi am y Drwydded yn daladwy cyn llogi.

2) DEFNYDD A MYNEDIAD

   a) Mae'r Trwyddedwr yn caniatáu i'r Trwyddedai gael mynediad at a defnyddio'r Fangre yn ystod Amseroedd y Drwydded ar gyfer Defnydd a Ganiateir yn unig. Ni chaiff y Trwyddedai ddefnyddio'r Fangre ar gyfer unrhyw bwrpas anghyfreithlon nac ar gyfer unrhyw bwrpas neu fodd a fyddai'n achosi colled, difrod, anaf, poendod neu anhwylustod i'r Trwyddedwr neu unrhyw breswylwyr eraill yn yr ysgol neu unrhyw berchennog neu breswyliwr mewn adeilad cyfagos.

   b) Mae'r Trwyddedwr yn dal yr hawl i gael mynediad at y Fangre bob amser yn ystod Cyfnod y Drwydded.

   c) Bydd y Fangre'n parhau i fod ym meddiant cyfreithiol y Trwyddedwr er gwaethaf galwedigaeth y Trwyddedai yn ystod cyfnod y drwydded ac ni fernir bod y cyfryw alwedigaeth yn gyfystyr neu'n creu unrhyw denantiaeth neu gytundeb prydles ar gyfer yr un peth.

3) CANSLO

   a) Bydd y Trwyddedai'n talu'r gost lawn am logi os bydd yn canslo llai na 24 awr cyn y llogiad.

4) CYFLWR A DIFROD

   a) Bydd y Trwyddedai'n cadw'r Fangre a'r ysgol mewn cyflwr glân a thaclus pan fydd yno. Mae'n rhaid gadael y Fangre a'r ysgol yn yr un cyflwr ag yr oedd cyn dechrau'r llogiad, a bydd bob parti'n cytuno ar y cyflwr cyn ac ar ôl y llogiad.

   b) Y Trwyddedai fydd yn atebol am unrhyw ddifrod a achosir yn ystod Cyfnod y Drwydded yn y Fangre neu'r ysgol, a bydd y Trwyddedai'n talu am gymodi unrhyw ddifrod i Gyngor Sir Ynys Môn/y Trwyddedwr.

5) YSWIRIANT ATEBOLRWYDD Y CYHOEDD

   a) Bydd gan y Trwyddedai yswiriant atebolrwydd y cyhoedd mewn perthynas â defnyddio'r Fangre ac yn darparu copi o'u hyswiriant atebolrwydd y cyhoedd o £5miliwn am bob llogiad. Bydd copi o hwn yn cael ei gadw gan y Trwyddedwr.

   b) Gall y Corff Llywodraethu, ar ei ddisgresiwn, hepgor y gofyniad hwn os yw'r Trwyddedai yn unigolyn neu'n grŵp bach anffurfiol o unigolion (ddim yn defnyddio adeiladau'r ysgol er pwrpasau masnachol neu fusnes) nad oes

ganddynt yswiriant atebolrwydd y cyhoedd, ac sy'n ei chael yn anodd meddiannu yswiriant o'r fath oherwydd y natur anffurfiol hon.

6) IAWNDAL

   a) Bydd y Trwyddedai yn digolledu'r Trwyddedwr a Chyngor Sir Ynys Môn yn erbyn pob traul, cost, hawliad, difrod a cholled (gan gynnwys unrhyw leihad yng ngwerth y Fangre a cholled ym mwynder y Fangre) sy'n codi o ddefnydd y Fangre gan y Trwyddedai neu gan unrhyw doriad yn nhelerau ac amodau'r Drwydded hon gan y Trwyddedai, neu unrhyw weithred neu esgeulustra o'r Drwydded, neu unrhyw unigolyn arall yn y Fangre gyda gwir awdurdod neu awdurdod ymhlyg am unrhyw un ohonynt.

7) ASEINIO A NEWID

   a) Mae'r Cytundeb Trwydded yn bersonol i'r Trwyddedai ac ni chaiff y Trwyddedai aseinio, is-osod na chael gwared â neu rannu meddiant neu anheddiad y Fangre. Ni chaiff y Trwyddedai wneud unrhyw newid neu ychwanegiad i'r Fangre ac ni chaiff sicrhau unrhyw eitemau i'r Fangre.

8) CYDYMFFURFIO AG IECHYD A DIOGELWCH, STATUD A RHEOLIADAU

   a) Mae'n rhaid i'r Trwyddedai gydymffurfio â'r holl ddeddfau sy'n gysylltiedig â'r Fangre a'r anheddiad, a defnydd o'r Fangre gan y Trwyddedai, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch.

   b) Mae'n rhaid i'r Trwyddedai fod â threfniadau addas ar waith i ddiogelu plant ac amddiffyn plant.

   c) Mae'n rhaid cymryd cofrestr ym mhob sesiwn a'i darparu i'r Trwyddedwr.

   d) Mae'n bosib y bydd rhaid cyflenwi Asesiadau Risg a thystysgrifau DBS sy'n ofynnol gan y Trwyddedai i'r Trwyddedwr.

   e) Mae'n rhaid cael tystysgrif prawf PAT ar gyfer bob darn o offer symudol.

   f) Mae'n rhaid i'r Trwyddedai sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r allanfeydd tân a'r weithdrefn wacâd ar glywed larwm.

9) CYFYNGU AR ATEBOLRWYDD Y TRWYDDEDWR

   a) Yn amodol ar gymal 9(b), nid yw'r Trwyddedwr yn atebol am:

      i) farwolaeth neu anaf i'r Trwyddedai, ei weithwyr, cwsmeriaid neu'r sawl a wahoddir i'r Fangre; neu

      ii) difrod i eiddo'r Trwyddedai neu weithwyr neu cwsmeriaid y Trwyddedai neu'r sawl a wahoddir i'r Fangre; neu

iii) unrhyw golled, hawliadau, gweithredoedd, difrod, costau, treuliau neu unrhyw atebolrwydd a achosir gan y Trwyddedai neu weithwyr y Trwyddedai, cwsmeriaid neu unrhyw rai a wahoddir i'r Fangre yn ymarferiad neu ymarferiad honedig yr hawliau a roddir dan gymal 2.

b) Ni fydd unrhyw beth yng nghymal 9(a) yn cyfyngu nac yn gwahardd atebolrwydd y Trwyddedwr am:

i) farwolaeth neu anaf neu ddifrod personol i eiddo a achosir gan esgeulustod ar ran y Trwyddedwr neu ei weithwyr neu asiantau; neu

ii) unrhyw fater lle byddai'n anghyfreithlon i'r Trwyddedwr wahardd neu gyfyngu ar atebolrwydd.

10) TERFYNU

a) Os yw'r Trwyddedai'n torri telerau ac amodau'r Drwydded hon ar unrhyw adeg, gellir ei terfynu'n syth ar rybudd gan y Trwyddedwr i'r Trwyddedai ac am hynny ni fydd Ffi'r Drwydded na rhan ohoni'n ad-daliadwy.

b) Gall y Trwyddedwr derfynu'r cytundeb hwn gydag wythnos o rybudd i'r Trwyddedai lle bydd y Drwydded yn darfod ac yn pennu.

c) Bydd unrhyw derfyniad o'r Drwydded hon heb ragfarn i hawliau unrhyw barti yn erbyn y llall o ran unrhyw doriad blaenorol o'r telerau ac amodau.

11) GORFODAETH

a) Ni fydd y Trwyddedwr yn atebol am unrhyw golled neu ddifrod a ddaw i ran y Trwyddedai o ganlyniad uniongyrchol neu anuniongyrchol i berfformiad y Drwydded hon yn cael ei atal, ei rwystro neu ei gohirio oherwydd unrhyw weithred Duw, terfysg, streic neu gau allan, masnach, anghydfod neu aflonyddwch llafur, damwain, offer neu beiriannau'n torri, tân, llifogydd, anawsterau wrth gael deunyddiau neu gludiant i weithwyr, methiant pŵer trydanol neu unrhyw amgylchiadau eraill allan o'i reolaeth sy'n effeithio ar ddarpariaeth gan y Trwyddedwr i gael mynediad at y gofod neu i ddefnyddio'r gofod.

12) HYSBYSEBU

a) Mae'n rhaid i'r Trwyddedwr gymeradwyo'r holl hysbysebion a phosteri sy'n ymwneud â defnydd o'r Fangre.

13) DIM GWARANTAU AM DDEFNYDD NA CHYFLWR

a) Nid yw'r Trwyddedwr yn rhoi unrhyw warant fod gan y Fangre'r cydsyniadau angenrheidiol ar gyfer y Defnydd a Ganiateir.

b) Nid yw'r Trwyddedwr yn rhoi unrhyw warant bod y Fangre'n gorfforol ffit ar gyfer y Defnydd a Ganiateir.

14) ANARGAELEDD Y FANGRE DROS DRO

a) Gall y Trwyddedwr roi rhybudd ar lafar i'r Corff Rheoli nad yw'r Fangre ar gael dros dro:

   i) lle mae'r ysgol wedi cau am unrhyw reswm;

   ii) lle nad yw'r Fangre ym marn y Trwyddedwr yn ddiogel i'w defnyddio gan y Trwyddedai;

   iii) amgylchiadau argyfwng lle mae angen i'r ysgol ddefnyddio'r Fangre.

b) Gall y Trwyddedwr roi mis o rybudd ysgrifenedig i'r Trwyddedai na fydd y Fangre ar gael dros dro pan fydd y Trwyddedwr angen y Fangre, ac yn y rhybudd bydd yn nodi'r cyfnod na fydd y Fangre ar gael.

ATODIAD B RHESTR WIRIO

RHESTR WIRIO CYTUNDEB TROSGLWYDDO RHEOLAETH

1) Mae'r defnydd a fwriedir yn cwrdd â'r Polisi Gosod

2) Gellir gosod cyfleusterau a gydnabyddir i'w llogi i drydydd parti heb effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth yr ysgol a gellir cael mynediad atynt heb ryngweithio â phlant ysgol (oni bai ei fod ar ôl darpariaeth ysgol)

3) Tystiolaeth a ofynnir amdani gan y llogwr

    i) Deilir copïau o'r canlynol:

        (a) Lleiafswm o £5miliwn o Yswiriant Atebolrwydd y Cyhoedd

        (b) Asesiadau Risg

        (c) Gwiriadau Recriwtio Diogel

            (i) DBS Safonol Cyfredol – rhif, dyddiad a thŷ clirio

            (ii) Hawl i weithio yn y DU

            (iii) Cymwysterau sy'n berthnasol i ddarparu gwasanaeth

            (iv) Hunaniaeth

        (d) Hyfforddiant Diogelu

            (i) Cyflwyniad i Weithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl gan gynnwys Plant mewn perygl ac Oedolion mewn perygl (lleiafswm o 6 mis ar ôl ar hyfforddiant), pa bynnag un sydd fwyaf priodol ar gyfer rolau swydd penodol (ar gyfer darpariaeth gofal plant, siaradwch â'ch Swyddog Datblygu Gofal Plant dirprwyedig).

            (ii) Tystysgrif o bresenoldeb mewn Hyfforddiant Recriwtio Diogel ar gyfer yr aelodau o staff gyda chyfrifoldebau Recriwtio a Dethol.

        (e) Gweithdrefnau Diogelu (gan gynnwys ond ddim yn gyfyngedig i);*

            (i) Trefniadau cyfwng ar gyfer argyfyngau

            (ii) Polisi Diogelu wedi ei ddilysu gan y Cyngor

            (iii) Cymhareb gywir o blant i oedolion h.y. lleiafswm o 2 oedolyn

            (iv) Grŵp/llogwr yn gyfrifol am blant nes bod eu rhieni yn eu codi

(v) Polisi Cymorth Cyntaf ac Iechyd a Diogelwch

(vi) Manylion Cyswllt Argyfwng

(vii) Tystysgrifau Hyfforddiant Cymorth Cyntaf

(viii) Gweithdrefn Recriwtio ac Archwilio Cefndir i'r sefydliadau sy'n gyfrifol am recriwtio staff.

APPENDIX C TRANSFER OF CONTROL AGREEMENT

CYTUNDEB TROSGLWYDDO RHEOLAETH

Gwneir y CYTUNDEB hwn ar [Dyddiad]

rhwng:

(1) [Enw'r Corff Llywodraethu] o [Enw'r Ysgol] a

(2) Dilëwch fel bo'n briodol:

(i) Os mai cwmni yw'r Corff Rheoli:

[Enw'r sefydliad]

[Cyfeiriad cofrestredig]

[Rhif cofrestru]

*ar gyfer gofal plant cynhwyswch Enw Cofrestredig Estyn

(ii) Os yw'r Corff Rheoli yn sefydliad heb ei gofrestru e.e. grŵp, cymdeithas, partneriaeth:

[Enw'r unigolyn sydd wedi'i awdurdodi i arwyddo'r cytundeb]

[Cyfeiriad yr unigolyn awdurdodedig]

Ar ran [Sefydliad]

(iii) Os mai unigolyn yw'r Corff Rheoli nad ydyw'n gweithredu ar ran sefydliad

[Enw'r unigolyn]

[Cyfeiriad yr unigolyn]

Cytunir fel a ganlyn:

1) Nod

a) Cytundeb i Drosglwyddo Rheolaeth yw hwn dan Reoliadau Rheoli Mangreoedd Ysgol (Cymru) 2008 ("y Rheoliadau").

b) Mae'r Llywodraethwyr yn mynd i'r Cytundeb hwn er mwyn ehangu defnydd o [Ysgol] er budd eithaf y gymuned.

c) Mae'r Corff Rheoli yn mynd i'r Cytundeb hwn i ehangu darpariaeth cyfleusterau cymuned.

d) Mae'r Cytundeb hwn yn gosod y trefniadau, telerau ac amodau o ran y Llywodraethwyr yn trosglwyddo rheolaeth o ddarn o fangre'r ysgol i'r Corff Rheoli.

2) Cynrychiolwyr awdurdodedig

a) Ar gyfer yr Ysgol, [Enw unigolyn ar ran yr ysgol a fydd yn rheoli/monitro'r cytundeb] neu'r fath unigolyn arall y gellir eu penodi yn eu lle fydd yn rheoli'r Cytundeb.

b) Ar gyfer y Corff Rheoli, [Enw'r unigolyn ar ran y sefydliad] neu'r fath berson arall y gellir eu penodi yn eu lle fydd yn rheoli'r Cytundeb.

c) Bydd pob parti o'r Cytundeb hwn yn hysbysu'r naill neu'r llall yn ysgrifenedig o unrhyw newidiadau i unigolyn neu gyfeiriad y cynrychiolwyr awdurdodedig.

3) Trosglwyddo Rheolaeth

a) Mae'r Llywodraethwyr yn cytuno i drosglwyddo rheolaeth o'r ardaloedd a ddangosir yn goch ar y cynllun ynghlwm i'r Corff Rheoli ("y Fangre a Reolir") yn ystod Cyfnod Rheolaeth y Tymor.

b) Bydd rheolaeth y Corff Rheoli o'r Fangre ("y Cyfnod Rheoli") fel a ganlyn: [Ardal o'r ysgol ac amseroedd argaeledd – dim amseroedd agor yn unig, nodwch hefyd amser ar gyfer gosod/clirio]

Enghraifft:

i) Ystafell gymuned (lliw glas ar y cynllun) - 7.30yb - 8.55am a 3.10yh - 6yh yn ystod tymor yr ysgol

ii) Neuaddau, cyrtiau, cae (lliw brown ar y cynllun) - 3.15yh - 6yh yn ystod tymor yr ysgol

iii) Ystafell gymuned (lliw glas ar y cynllun) – 7.30 – 6.00yh yn ystod gwyliau ysgol

iv) Neuaddau, cyrtiau, cae (lliw brown ar y cynllun) - 7.30 - 6.00yh yn ystod gwyliau'r ysgol

c) Mae Cyngor Sir Ynys Môn a'r Corff Llywodraethu yn dal yr hawl i amrywio'r oriau a nodir yn y cytundeb hwn ac y gellir amrywio'r fangre a adnabyddir i'w

defnyddio i ardaloedd cymharol yn yr Ysgol yn ôl yr hyn a ddarperir gan y Llywodraethwyr o bryd i bryd.

4) Tymor

a) Bydd y cytundeb hwn yn dechrau ar ddyddiad y cytundeb hwn ac yn parhau tan [Dyddiad terfyn y cytundeb hwn] ("y Tymor") oni bai y caiff ei derfynu ynghynt yn unol â chymalau 6 neu 8.

5) Defnydd a Ganiateir

(a) Ni chaiff y Corff Rheoli ddefnyddio'r Fangre a Reolir ar gyfer y defnyddiau a nodir yn y rhestr o ddefnyddiau a ganiateir (fel y'u cyfeirir atynt ym Mholisi Gosod Ysgolion y Cyngor) fel "ni chaniateir".

(b) Gall y Corff Rheoli ddefnyddio'r Fangre a Reolir er y pwrpasau a nodir yn y rhestr o ddefnyddiau a ganiateir (fel y'u cyfeirir atynt ym Mholisi Gosod Ysgolion y Cyngor) fel "caniateir".

(c) Dan bob amgylchiad arall, bydd y Corff Rheoli angen caniatâd Cyngor Sir Ynys Môn.

(d) Ni chaiff y Corff Rheoli ddefnyddio unrhyw ran o'r Fangre a Reolir er defnydd sy'n amhriodol ar gyfer y rhan honno.

(e) Mae'n rhaid i'r Corff Rheoli gydymffurfio â thelerau Polisi Gosod Ysgolion y Cyngor sydd ar waith o bryd i bryd gan eu bod yn berthnasol i gytundebau trwydded.

(f) Ni chaiff y Corff Rheoli ganiatáu trosglwyddo cytundebau rheoli, prydlesi na gweithredoedd sy'n gyferbyniol i Bolisi Gosod Ysgolion y Cyngor ac eithrio lle mynegir caniatâd yn y cytundeb i drosglwyddo'r rheolaeth hwn.

6) Terfynu'r Cytundeb

a) Gall y Llywodraethwyr derfynu'r Cytundeb hwn drwy roi tri mis o rybudd ysgrifenedig i'r Corff Rheoli ar unrhyw amser.

b) Gall y Llywodraethwyr derfynu'r Cytundeb hwn ar unwaith drwy rybudd ganddynt:

i) os na delir ffi sy'n ddyledus dan y Cytundeb hwn am fwy na 28 diwrnod o fod yn ddyledus

ii) os yw'r Corff Rheoli'n methu ag unioni unrhyw doriad (a ellir ei unioni) o unrhyw rai o'r amodau sydd yn y Cytundeb hwn ar ôl gofyniad i unioni'r fath doriad o fewn 28 diwrnod o rybudd ysgrifenedig

iii) os yw'r Corff Rheoli'n torri unrhyw rai o'r amodau yn y Cytundeb hwn na ellir eu unioni ym marn y Llywodraethwyr a bydd y Llywodraethwyr yn nodi hyn mewn hysbysiad a roddir ganddynt.

c) Gall y Corff Rheoli derfynu'r Cytundeb hwn unrhyw dro drwy roi tri mis calendr o rybudd ysgrifenedig i'r Llywodraethwyr.

7) Ffi

a) 7.1 Mae'r Corff Rheoli'n cytuno i dalu ffi i'r Llywodraethwyr am ddefnyddio'r Fangre yn ystod y Tymor ("y Ffi") fel a ganlyn:

b) 7.1.1 Y ffi fydd swm o £[Swm] fesul [Cyfnod] yn daliadwy o flaen llaw.

c) 7.1.2 Gall y Corff Llywodraethu amrywio'r Ffi'n flynyddol o ddyddiad y Cytundeb hwn. Bydd y Llywodraethwyr yn rhoi 28 diwrnod o rybudd ysgrifenedig os amrywir y Ffi. Os nad yw'r Corff Rheoli'n dymuno derbyn amrywiad y Ffi, gall roi 28 diwrnod o rybudd ysgrifenedig (cyn i rybudd y Llywodraethwyr ddod i ben) i derfynu'r Cytundeb, ac yn y cyfnod ymyrryd, y Ffi bresennol fydd yn parhau i gymhwyso.

8) Diogelu Grwpiau Bregus ac Amddiffyn Plant

a) Yn ogystal ag atebolrwydd y Corff Rheoli o ran pryderon iechyd a diogelwch y cyfeirir atynt ym mharagraff 9 ac ym mannau eraill yn y cytundeb hwn, mae'r Corff Rheoli'n ymgymryd yn benodol â sicrhau bod trefniadau addas ar waith o ran diogelu plant, oedolion bregus ac amddiffyn plant yn unol â gofynion Deddf Plant 1989 & 2004, Deddf Addysg 2002, Deddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006, a'r arweiniad a amlinellir yn 'Diogelu Plant a Recriwtio Diogel mewn Addysg' (DFES 1af Ionawr 2007) yn ogystal â glynu at holl ddeddfwriaeth berthnasol arall ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol sy'n disodli'r ddeddfwriaeth gyfredol hon.

b) Yn ogystal â'r hawl cyffredinol i derfynu yr amlinellir ym mharagraff 6, mae gan y Llywodraethwyr hawl penodol i derfynu'r cytundeb yn syth os nad oes gan y Corff Rheoli'r trefniadau a gyfeirir atynt ym mharagraff 8(a) ar waith, ac os yw'n methu â gweithredu camau'n syth i'w rhoi ar waith. Dan y fath amgylchiadau, ni fydd y Llywodraethwyr yn atebol am unrhyw golled ariannol neu golled arall i'r Corff Rheoli.

9) Amodau Iechyd a Diogelwch

a) Hyd gyfnod y Tymor, yn ystod y Cyfnod Rheoli, mae'n rhaid i'r Corff Rheoli sicrhau'r canlynol:

i) Y dilynir gweithdrefnau argyfwng arferol.

ii) Y dilynir gofynion Iechyd a Diogelwch o ran y Blynyddoedd Cynnar a'r Gofrestr Gofal Plant. Dilëwch fel bo'n briodol.

iii) Y cynhelir, cofnodir a diweddarir asesiadau risg.

iv) Y darperir Pecyn Cymorth Cyntaf.

v) Bod aelod o staff sydd â thystysgrif cymorth cyntaf/cymorth cyntaf pediatrig (dilëwch fel bo'n briodol – nid yw cymorth cyntaf pediatrig ond yn ofyniad ar gyfer gofal plant ar y gofrestr Blynyddoedd Cynnar) ar y safle bob amser yn ystod oriau agor.

vi) Mae'n rhaid i'r ysgol gymeradwyo unrhyw offer a ddaw i fangre'r ysgol.

vii) Bod yr holl staff yn gyfarwydd ag offer argyfwng, megis diffoddwyr tân, larymau, ffonau symudol a chyfleusterau cymorth cyntaf.

viii) Y sefydlir gweithdrefn ymgilio. Bydd yn manylu ar bwy fydd yn gyfrifol am gymryd rheolaeth, am alw gwasanaethau argyfwng a lle i ymgynnull. Mae'n rhaid ystyried anghenion cyfranogwyr ag anableddau. Mae'n rhaid ymgymryd ag ymarfer tân bob hanner tymor a chadw cofnod fel tystiolaeth.

ix) Y defnyddir cyfleusterau ac offer (os fe'u gwneir ar gael) yn gyfrifol, mewn modd trefnus ac er y pwrpasau y'u llogir ar eu cyfer, gan sicrhau nad ydynt yn cyfaddawdu diogelwch y defnyddwyr neu'r Fangre a Reolir a'r offer.

(1) Mae hyn yn cynnwys sicrhau:

(a) Na yfir alcohol

(b) Na rwystrir allanfeydd argyfwng, diffoddwyr tân na phwyntiau larwm.

(c) Bod llwybrau digonol ar gael i ganiatáu mynediad ac allanfa hawdd hygyrch a rhydd.

(d) Na ddefnyddir unrhyw silindrau neu duniau nwy yn y Fangre neu ar dir yr ysgol.

(e) Na roddir deunyddiau hylosg ger ffynonellau gwres.

(f) Y defnyddir offer er y pwrpas y cânt eu dylunio ar ei gyfer.

(g) Y gwneir profion PAT ar offer trydanol a'i fod yn cydymffurfio â safonau Prydeinig ac yna'n gymwys.

(h) Na ddefnyddir sylweddau fflamadwy neu beryglus.

(i) Na ddefnyddir tân agored, canhwyllau nac offer trydanol anawdurdodedig ar y Fangre.

b) Gellir cadw neu storio dodrefn, offerynnau neu offer sy'n eiddo i'r Corff Rheoli ar y Fangre a Reolir os yw'r Pennaeth yn cytuno.

c) Mae'n rhaid gadael y Fangre a Reolir a Mangre'r Ysgol ar amser ar ddiwedd y Cyfnod Rheolaeth a'i gadael yn lân ac yn daclus. Mae'n rhaid glanhau'r Fangre a Reolir yn drylwyr (gan gynnwys y toiledau) yn ddyddiol.

10) Difrod i Eiddo

a) Mae'r Corff Rheoli'n ymgymryd ag un ai gwneud yn iawn neu ad-dalu'r Llywodraethwyr am y gost i wneud yn iawn (yn ôl cyfarwyddyd y Llywodraethwyr) am unrhyw ddifrod i eiddo'r Llywodraethwyr, yr Ysgol neu Gyngor Sir Ynys Môn a achosir gan y Corff Rheoli, eu staff, eu hymwelwyr neu gleientiaid.

11) Atebolrwydd y Partïon a Digolledïad

a) Oni bai am yr hyn sy'n ofynnol dan Ddeddf Telerau Contract Annheg 1977, ni fydd Cyngor Sir Ynys Môn na Llywodraethwyr yn atebol am unrhyw anaf (gan gynnwys anaf sy'n arwain at farwolaeth) neu ddifrod neu golled eiddo, y gall ddigwydd i'r Corff Rheoli, eu cymorthyddion, gweithwyr, gwirfoddolwyr neu asiantau, plant yn mynychu unrhyw sesiwn neu unrhyw un arall yn dod i'r Fangre (ac eithrio marwolaeth neu anaf y gall ddigwydd oherwydd esgeuluso Cyngor Sir Ynys Môn, y Llywodraethwyr, ei weision neu asiantaethau sy'n gweithredu o fewn cwmpas eu hawdurdod).

b) Mae'n rhaid i'r Corff Rheoli ddigolledu'r Ysgol, Cyngor Sir Ynys Môn, eu gweithwyr a'u hasiantaethau a pharhau i'w digolledu yn erbyn unrhyw weithredoedd, hawliau, gweithgareddau, costau, difrod, atebolrwydd a threuliau o ran anaf i unrhyw unigolion (gan gynnwys anaf yn arwain at farwolaeth) a difrod at a cholli eiddo y gall ddigwydd oherwydd, neu o ganlyniad i'r llogiad (ac eithrio marwolaeth neu anaf y gall ddigwydd oherwydd esgeuluso Cyngor Sir Ynys Môn, y Llywodraethwyr, ei weithwyr neu asiantaethau o fewn cwmpas eu hawdurdod).

12) Yswiriant

a) Mae'n rhaid i'r Corff Rheoli fod ag yswiriant atebolrwydd y cyhoedd o bum miliwn o bunnoedd fesul hawliad. Mae'n rhaid i'r Corff Rheoli ddarparu yswiriant atebolrwydd gweithwyr o ddeng miliwn o bunnoedd yr hawliad os yn berthnasol.

b) Mae'n rhaid i'r Corff Rheoli dalu pob premiwm neu gost arall sy'n codi yn narpariaeth y fath bolisïau yswiriant a gyfeirir atynt yng nghymal 12(a) uchod

a sicrhau bod y polisïau neu gopïau ardystiedig ohonynt yn cael eu cynhyrchu i'r Llywodraethwyr os y gofynnir amdanynt.

13)Diogelwch Ysgol

a) Mae'r Llywodraethwyr yn cytuno i wneud trefniadau i agor a chloi'r Fangre ar ôl bob Cyfnod Rheolaeth ac mae'r Corff Rheoli'n cytuno i hysbysu'r Llywodraethwyr neu eu Cynrychiolydd Awdurdodedig os yw sesiwn am fod yn dechrau'n hwyr neu'n gorffen yn fuan.

14)Anargaeledd Dros Dro'r Fangre/Rheolaeth y Llywodraethwyr

a) Gall y Llywodraethwyr roi rhybudd ar lafar i'r Corff Rheoli am anargaeledd dros dro'r Fangre a Reolir, a rheolir hyn gan y Llywodraethwyr yn yr achosion canlynol:

    (a) Pan fo'r Ysgol wedi cau am unrhyw reswm;

    (b) Lle nad yw'r Fangre a Reolir ym marn y Llywodraethwyr yn ddiogel i'w defnyddio gan y Corff a Reolir;

    (c) Mewn amgylchiadau argyfwng lle mae angen i'r Ysgol ddefnyddio'r Fangre a Reolir.

b) Gall y Llywodraethwyr roi tri mis calendr o rybudd ysgrifenedig na fydd y Fangre a Reolir ar gael i'r Corff Rheoli dros dro pan fydd y Llywodraethwyr angen y Fangre a Reolir a bydd yn nodi yn y rhybudd y cyfnod na fydd y Fangre a Reolir ar gael.

c) Mewn sefyllfaoedd lle nad yw mangre ar gael dros dro neu os oes ymyrraeth yn nefnydd y fangre, nid yw Cyngor Sir Ynys Môn na'r Corff Llywodraethu yn atebol i dalu unrhyw iawndal o ran unrhyw golledion, colledion elw neu ddifrod yr achosir

15)Mynediad a Pharcio

a) Caiff staff barcio mewn lleoedd parcio i ymwelwyr.

16) Poendod

a) Mae'n rhaid i'r Corff Rheoli (a rhaid sicrhau nad yw unrhyw un sy'n dod i'r Fangre a Reolir yn ystod y Cyfnod Rheoli) beidio ag achosi poendod nac aflonyddwch i'r Llywodraethwyr, yr Ysgol na'r cymdogion.

17)Ychwanegiadau a Newidiadau

a) Ni fydd y Corff Rheoli'n gwneud unrhyw newidiadau nac ychwanegiadau i'r Fangre a Reolir.

18) Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999

a) Ni fydd unrhyw beth yn y Cytundeb hwn yn rhoi budd uniongyrchol nac anuniongyrchol i unrhyw drydydd parti na hawl i weithredu yn erbyn y Partïon, ac ni fydd gan y fath drydydd parti hawl i orfodi unrhyw delerau o'r Cytundeb hwn. Dyma'r achos er gwaethaf darpariaethau'r Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999.

19)Trwydded

a) Mae'r Partïon hyn yn cytuno mai trwydded yw'r Cytundeb hwn ac nad ydyw'n creu tenantiaeth rhwng y Corff Rheoli a Llywodraethwyr Cyngor Sir Ynys Môn.

20)Anghydfodau

a) Bydd y partïon yn gwneud pob ymdrech i ddatrys, drwy'r cytundeb, unrhyw anghydfod rhyngddynt o ran unrhyw fater sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb hwn.

b) Os yw unrhyw Barti'n ystyried bod y naill neu'r llall wedi methu â chydymffurfio â thelerau'r Cytundeb hwn, bydd y canlynol yn digwydd:-

   i) Trafodir y mater mewn cyfarfod rhwng y Partïon o fewn 14 diwrnod.

   ii) Os na ellir ei ddatrys drwy'r broses yr amlinellir yn 20(b)(i), rhaid trefnu cyfarfod rhwng y Partïon a chynrychiolydd o Gyngor Sir Ynys Môn. Eto, gellir galw am hwn ar gais naill Barti neu'r llall ac mae'n rhaid ei gynnal o fewn 21 dydd gwaith.

21)Aseinio ac Is-logi

a) Ni chaiff y Corff Rheoli aseinio nac is-logi'r holl neu ran o'r Fangre oni bai am gyda chytundeb trwydded fel yr arlwyir ar ei gyfer ym Mholisi Gosod Ysgolion Cyngor Sir Ynys Môn.

22)TAW

a) Os yw unrhyw gyflenwad a gyfeirir ato yn y Cytundeb hwn yn neu'n dod yn daladwy i TAW, bydd y Parti sy'n derbyn y cyflenwad ("y Derbynnydd") hefyd yn talu i'r Parti sy'n cyflenwi, ("y Cyflenwr") swm y TAW, a bydd y Derbynnydd yn derbyn anfoneb VAT priodol gan y Cyflenwr am y cyflenwad.

23)Hysbysiadau

a) I roi rhybudd dan y Cytundeb hwn, mae'n rhaid danfon llythyr yn bersonol neu lythyr dosbarth cyntaf i'r cyfeiriad isod neu i unrhyw gyfeiriad arall a roddir yn ysgrifenedig. Gweinir hysbysiad wedi'i ddanfon â llaw pan gaiff ei ddanfon, ac ystyrir bod hysbysiad a yrrir drwy bost dosbarth cyntaf wedi'i weini 48 awr ar ôl ei bostio.

i) Cyfeiriad Ysgol:

ii) Cyfeiriad y Corff Rheoli:

24) Cydymffurfiad statudol

a) Mae pob Parti'n gwarantu ac yn ymgymryd y bydd yn cydymffurfio â'r holl ddeddfau, rheolau, rheoliadau, archddyfarniadau, ac ordinhadau eraill a roddir gan unrhyw uwch-lywodraeth, llywodraeth, gwladwriaeth neu unrhyw awdurdod arall mewn perthynas â'r mater dan sylw'r Cytundeb hwn ac i berfformiad y Partïon i'r perwyl hwn o'u goblygiadau dan y Cytundeb hwn. Mae hyn yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i, gydymffurfio â:

(a) Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974

(b) Deddf Cydraddoldeb Hiliol 1976 a Deddf Cydraddoldeb Hiliol (Diwygiad) 2000

(c) Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975

(d) Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995

(e) Deddf Safonau Gofal 2000

(f) Deddf Diogelu Data 2018

(g) Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

25). Newid Deilyddion Swyddi

a) Mae'r Corff Rheoli yn cytuno i hysbysu'r Llywodraethwyr o flaen llaw os yw'r unigolyn sydd yn rôl y Cynrychiolydd Awdurdodedig am fod yn gorffen yn y swydd honno ac i ddarparu enw'r deilydd swydd newydd gan fynd i mewn i unrhyw aseiniad o'r Cytundeb hwn neu gytundeb newydd (ar ddisgresiwn y Llywodraethwyr) i roi effaith i'r newid yn neilydd y swydd.

26) Cyffredinol

a) Yn y Cytundeb hwn, mae cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yn cynnwys yr holl ddiwygiadau, disodliadau neu ailddeddfiadau a'r holl reoliadau ac arweiniadau statudol a roddir neu a wneir dan y ddeddfwriaeth.

CYTUNIR gan y Partïon ar y dyddiad a nodir ar ddechrau'r Cytundeb hwn

……..

Llofnodwyd gan

Cadeirydd Llywodraethwyr [Enw'r Ysgol]

…….

Llofnodwyd gan

[Swydd]

Llofnodydd awdurdodedig [Enw'r Sefydliad]

Atodiad D Cwestiynau i'w gofyn wrth ystyried gosod

Pwy sydd eisiau defnyddio'r lleoliad?

Manylion sylfaenol bob siaradwr gan gynnwys cyfeiriad, manylion cyswllt (gan gynnwys rhif ffôn cartref a rhif ffôn symudol) a manylion y sefydliad;
Pwy maent yn eu cynrychioli?
A ydynt wedi siarad o'r blaen?
A oes ganddynt bresenoldeb ar y we? Gwiriadau i gynnwys cyfryngau cymdeithasol.
A oes unrhyw ddigwyddiadau wedi bod mewn lleoliadau eraill? Os oes, cysylltu â'r lleoliad i ofyn am gynnwys y digwyddiad, gan gynnwys siaradwyr a chadarnhau nad oedd unrhyw broblemau.
Pwy sy'n debygol o fynychu?
Gwirio nad ydynt ar y rhestr o sefydliadau sydd wedi eu gwahardd.
https://www.gov.uk/government/publications/proscribed-terror-groups-or-organisations--2
A yw'r siaradwr gwadd neu sefydliad wedi'i adnabod fel person neu unigolyn gyda barn neu gred eithafol flaenorol?

Beth yw testun y digwyddiad?

Beth yw testun y digwyddiad a sut caiff ei farchnata? Gofyn am gopi o'r agenda ac enwau'r siaradwyr, gwirio nad ydynt ar y rhestr o sefydliadau sydd wedi eu gwahardd.
A yw'r digwyddiad wedi ei gynnal o'r blaen?
Pam bod y lleoliad wedi ei ddewis ar gyfer y digwyddiad hwn?
A yw trefnwyr y digwyddiad yn gofyn am drefniadau arbennig e.e. cyfarfod caeedig, ticedi neu neilltuad?
A oes unrhyw wrthwynebiadau wedi bod gan y gymuned?

Ystyried Goblygiadau Ehangach gan gynnwys

A yw'r siaradwr yn dueddol o achosi aflonyddwch mewn lleoliadau?
A yw'n debygol y bydd pryderon iechyd a diogelwch neu bryderon trefn gyhoeddus?
A oes angen hysbysu'r heddlu lleol?
A fydd y digwyddiad yn cael ei oruchwylio?

SCHOOLS LETTINGS POLICY

1) INTRODUCTION

   a) The Isle of Anglesey County Council ("the Council") is desirous of enabling and promoting the use of school facilities by the community for the benefit of the community. The purpose of this policy is to:

      e. provide clear guidance on lettings and the hire of school premises;

      f. enable safe access to the school site and premises;

      g. promote the use of school facilities by the wider community; and

      h. safeguard the interests of the Council and the schools. This Policy should be read in conjunction with the Council's 'No Platform Policy'.

   b) The terms of this policy are directions under the meaning given in regulations 3(2) and 7(2) of The Control of School Premises (Wales) Regulations 2008.

2) DEFINITION OF A LETTING

   a) A letting may be defined as "any use of the school buildings and grounds by parties other than the school". A letting must not interfere with the activities of the school.

   b) Use of the premises for activities such as staff meetings, parents' meetings, Governing Body meetings and extra-curricular activities of pupils supervised by school staff, fall within the corporate life of the school. Costs arising from these uses are therefore a legitimate charge against the schools delegated budget and do not require a letting agreement.

   c) There are three types of letting agreements:

      i) **Licence Agreement** – this arrangement is used when members of the public, groups, organisations or other third party (for example a local dance class or a local football club wanting to use the school grounds every Tuesday evening and Sunday morning) wish to use an area of the school premises for an activity or event. The Governing Body may decide on the terms of the licence subject to those terms complying with this policy and with the minimum terms as contained in the Licence Agreement set out in Appendix A.

      ii) **Transfer of Control Agreement (TOCA)** – this agreement is used when the Governing Body is approached by a third party ("the Controlling Body") to control and administer the use of the school or parts of the school during set times, usually outside of school hours. It must be for the purpose of promoting community use of the school facilities. This

